



POLISI IAITH GYMRAEG

Yn cefnogi ein cwsmeriaid trwy cyfrwng Cymraeg



LLOYDS BANK

Cynnwys

Staff sy'n siarad Cymraeg

Teleffoni a gohebiaeth

Gwasanaethau cyfieithu

Arwyddion cangen

Deunydd hyrwyddo

Peiriant Cashpoint® a chyfleusterau

Peiriant Adnau Di-oed

Llyfrau siec a llyfrau talu i mewn

Rydym wedi creu brand sengl, unedig sy'n gosod ein cwsmeriaid yn gyntaf. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r cymorth dwyieithog yr ydym yn ei ddarparu i'n cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg.

Staff sy'n siarad Cymraeg

Mae ein cydweithwyr yn rhan ganolog iawn o'u cymuned leol, felly yn yr ardaloedd ble y mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn eang, byddwch chi fel arfer yn gweld aelod o staff cyfrwng Cymraeg yn y gangen hefyd. Mae'r logo laith Gwaith ar eu bathodynau enw yn golygu eu bod yn hawdd eu hadnabod.



Teleffoni a gohebiaeth

Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg at ein gwasanaeth Bancio Ffôn cyffredinol. O'r fan honno, gall galwyr sydd eisiau siarad yn Gymraeg gael eu trosglwyddo i linell Gymraeg bwrpasol neu rhoddir rhif iddynt er mwyn iddynt ddeialu eu hunain. Rhif y llinell Gymraeg yw 0345 072 8003.

Mae'r aelodau o staff y llinell Gymraeg in ateb galwadau gyda chyfarchiad byr ac yn cynnig cymorth yn Gymraeg er mwyn ei gwneud hi'n amlwg i alwyr bod croeso iddynt siarad Cymraeg. Os yw'r rhif hwn yn brysur neu pan fydd y llinell ar gau, mae galwyr yn cael cynnig yr opsiwn o siarad â chydweithiwr Saesneg ei iaith yn hytrach nag aros.

Rydym yn croesawu llythyron yn Gymraeg ac rydym yn ateb yn Gymraeg hefyd.

Gwasanaethau cyfieithu

Ar gyfer ein holl gyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg, rydym yn defnyddio asiantaeth gyfieithu arbenigol sydd wedi'i chymeradwyo a'i hachredu gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.



Arwyddion cangen

Mae gennym amrywiaeth o arwyddion yn Gymraeg a Saesneg yn ein holl ganghennau yng Nghymru. Mae'r arwyddion Gymraeg a Saesneg yn cael ei ddefnyddio yr un mor aml.

Mae'r arwyddion yn cynnwys:

- hysbysiadau sy'n wynebu'r tu allan i'r gangen – platau enw'r gangen, ac oriau agor, arwyddion dim ysmegu a diogelwch
- arwyddion y tu fewn i'r gangen sy'n helpu cwsmeriaid i ganfod eu ffordd o gwmpas
- arwyddion llywio i helpu cwsmeriaid i leoli peiriannau Cashpoint® a Pheiriannau Adnau Di-oed
- unedau arddangos marchnata parhaol
- desgiau croeso

Deunydd hyrwyddo

Mae ein posteri marchnata ar gael yn Saesneg neu Gymraeg ac rydym yn ceisio sicrhau bod cymysgedd yn cael ei arddangos ble y mae'r gofod ffenestr a nifer yr unedau hyrwyddo mewnol yn caniatáu.

Er enghraifft, os mai dim ond un uned ffenestr sydd i'w chael, mae'r poster sy'n wynebu'r tu allan yn Saesneg a'r un sy'n wynebu'r tu fewn yn Gymraeg. Gyda dwy ffenestr, mae'r arddangosfa i'r gwrthwyneb yn yr ail ffenestr. Os mai dim ond un uned marchnata fewnol sydd i'w chael, bydd y poster yn Saesneg. Os oes gan y gangen ail uned, bydd y poster Gymraeg i'w weld.

Mae ein taflenni ymgyrchu yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac yn cael eu cyflenwi fel PDF i'w hargraffu'n lleol. A phan fydd taflenni ymgyrchu yn cael eu dosbarthu â llaw, er enghraifft dros y cownter neu mewn digwyddiad, gofynnir i'r cwsmeriaid pa fersiwn fyddai'n well ganddynt.

Peiriant Cashpoint® a chyfleusterau Peiriant Adnau Di-oed

Mae ein holl beiriannau Cashpoint® a Pheiriannau Adnau Di-oed yng Nghymru yn caniatáu i gwsmeriaid ddewis sgriniau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Llyfrau siec a llyfrau talu i mewn

Mae fersiynau dwyieithog o'r ddau ar gael i gwsmeriaid.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymrwymiad cyfredol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a bydd yn cael ei adolygu dros amser.

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y polisi, siaradwch â'ch cangen leol.



Ewch i lloydsbank.com



Ymwelwch â'ch cangen leol

Cysylltwch â ni os hoffech gopi o hwn yn Braille, print mawr neu dap sain.

Lloyds Bank plc. Swyddfa gofrestrdig: 25 Gresham Street, Llundain EC2V 7HN.
Cofrestrdig yng Nghymru a Lloegr rhif. 2065.

Mae Lloyds Bank plc wedi'i awdurdodi gan Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus o dan y rhif cofrestru 119278.



LLOYDS BANK